



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Polisi Dyraniadau ar gyfer Tai Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cynnwys

1. Cyflwyniad ac Amcanion	3	
2. Gweinyddu'r polisi	4	
3. Cymhwyster i ymuno â chofrestr tai Living Merthyr Tydfil		5
4. Pwy sy'n anghymwys i ymuno â Living Merthyr Tydfil?	6	
5. Proses ymgeisio	6	
6. Asesu Blaenoriaeth	7	
7. Y System Bandio Blaenoriaeth	10	
8. Hysbysebu Eiddo	19	
9. Gwneud cais am eiddo	21	
10. Proses ddethol a chynnig llety	22	
11. Addasrwydd i fod yn ddeiliad contract (Tenant), ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ôl-ddyledion rhent		23
12. Trefniadau Gosod Lleol	26	
13. Cynllun Gosod ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol	29	
14. Llety Camu Ymlaen	30	
15. Llety i Bobl Hŷn	30	
16. Tai Hygyrch/Eiddo wedi'i Addasu	31	
17. Meddianwyr sy'n berchnogion	33	
18. Eithriadau i'r broses gyffredinol	33	
19. Adolygu penderfyniadau	34	
20. Adolygiad blynyddol o geisiadau	34	
21. Newid mewn amgylchiadau	35	
22. Ceisiadau wedi'u canslo	36	
23. Monitro ac adolygu polisi	36	
24. Panel Tai Lleol	37	
25. Bodloni Anghenion Amrywiol	40	
26. Canmoliaeth, Sylwadau, Cwynion a'r Hawl i Adolygiad		41

1. Cyflwyniad ac Amcanion

1.1 Mae'r galw am lety rhent cymunedol (cymdeithasol) ym Merthyr Tudful yn uchel ac felly mae'n hanfodol bod polisi cadarn ar waith er mwyn blaenoriaethu pwy ddylai gael tai cymunedol. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd y Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig, sy'n aelodau o bartneriaeth Living Merthyr Tydfil yn blaenoriaethu ymgeiswyr am y cartrefi sydd ar gael iddynt i'w rhentu ar draws bwrdeistref sirol Merthyr Tudful. Mae'n nodi sut y bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ochr yn ochr â'r meini prawf i'w defnyddio yn ogystal â darparu sut y bydd eiddo'n cael ei hysbysebu drwy'r bartneriaeth ac yn manylu ar sut y gall ymgeiswyr wneud cais am y lleoedd gwag.

1.2 Mae Living Merthyr Tydfil yn bartneriaeth gyda:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Merthyr Valleys Homes
- Tai Hafod
- Tai Wales & West
- Cymdeithas Tai Merthyr Tudful

Mae pob un o'r Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig hyn wedi ymrwymo'n wirfoddol i'r polisi dyrannu hwn i sicrhau bod pob ymgeisydd sy'n gwneud cais am dai cymunedol (cymdeithasol) yn y Fwrdeistref Sirol yn cael un llwybr mynediad ac yn cael ei asesu gan ddefnyddio un polisi.

1.3 Ers 2009, nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful bellach yn berchen ar unrhyw stoc dai ond gall gaffael stoc gyfyngedig o lety fel rhan o unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cadw'r cyfrifoldeb cyfreithiol i weinyddu tai cymunedol (cymdeithasol) yn deg ac yn briodol yn y Fwrdeistref Sirol. I'r perwyl hwn, RHAID i bob ymgeisydd am dai cymunedol (cymdeithasol) ddod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, waeth pa Landlord Cymunedol Cofrestredig sy'n berchen ar yr eiddo y gallai ymgeisydd ddymuno gwneud cais amdano.

Mae'r math o gontract galwedigaethol a ddyfernir yn cael ei bennu gan y Landlord Cymunedol Cofrestredig priodol.

Mae partneriaid Living Merthyr Tydfil wedi cytuno i weithio ar y cyd i:

- Ddefnyddio'r adnoddau tai cyfyngedig i'r effaith orau drwy fodloni'r angen mwyaf am dai yn y fwrdeistref sirol
- Cyflawni gofynion statudol a chyfreithiol
- Cynorthwyo'r Cyngor i atal digartrefedd a darparu tai i ymgeiswyr y mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau llety iddynt
- Darparu system agored, dryloyw ac atebol o flaenoriaethu ymgeiswyr sy'n hawdd ei deall
- Caniatáu i ymgeiswyr wneud dewis o ran eu llety lle bo hynny'n bosibl, yn briodol ac yn ymarferol
- Cyfrannu at greu tenantiaethau a chymunedau cynaliadwy

- Bod â hyblygrwydd yn y polisi i ymdrin â materion brys a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, lle bydd hyn yn cefnogi'r broses o greu cymunedau cydlynol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd
- Sicrhau bod y broses ymgeisio a gweithrediad y polisi yn syml i bawb sydd am ei ddefnyddio fel nad oes unrhyw un dan anfantais

1.4 Bydd y bartneriaeth yn gweithredu system sy'n seiliedig ar anghenion lle bydd ymgeiswyr yn cael eu gosod yn un o'r bandiau sy'n adlewyrchu anghenion eu haelwyd. Bydd y system hon yn seiliedig ar asesiad cyfansawdd o anghenion unigol a bydd yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y system hon yn cael ei phennu gan y wybodaeth y bydd yr ymgeisydd yn ei datgelu ar adeg y cais; ac yna asesiad lle bydd angen darparu tystiolaeth ategol o'r angen am dai gan ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru.

1.5 Mae partneriaid Living Merthyr Tydfil wedi mabwysiadu'r ddogfen hon fel polisi ar y cyd. Mae hyn yn galluogi'r holl bartneriaid i gydweithio'n agos i fodloni'r angen am dai yn y fwrdeistref sirol ac mae'n dangos dull cydweithredol o fynd i'r afael â'r materion hyn mewn modd agored a thryloyw, gan gefnogi egwyddorion craidd Adran 95 Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gymdeithasau Tai gydweithredu â'r Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â digartrefedd a'i liniaru. Mae'r polisi'n galluogi'r bartneriaeth i gefnogi'r agenda hon ochr yn ochr â sicrhau bod unigolion eraill, megis y rhai sy'n gadael gofal, y rhai sy'n gadael yr ysbyty neu'r rhai sy'n byw mewn llety sy'n cael effaith andwyol ar eu hiechyd a'u lles, yn cael cymorth i ddod o hyd i lety arall. Mae'r polisi'n ymdrin ag achosion lle mae angen i denantiaid/deiliaid contract presennol un o'r Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig sy'n bartneriaid drosglwyddo i eiddo arall yn ogystal â gosod cartrefi newydd.

1.6 Mae'r ddogfen bolisi hon yn ymdrin â dyrannu tai rhent cymunedol (cymdeithasol) yn unig ac nid yw'n cwmpasu mathau eraill o lety sy'n eiddo i bartneriaid Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig megis tai â chymorth, cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol, eiddo cost isel a thai fforddiadwy amgen eraill.

2. Gweinyddu'r polisi

2.1 Bydd partneriaeth Living Merthyr Tydfil yn gweinyddu'r polisi hwn drwy Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT. Bydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn gyfrifol am y penderfyniadau o ddydd i ddydd sydd eu hangen ar achosion a cheisiadau am dai cymunedol (cymdeithasol). Bydd ceisiadau am dai cymunedol (cymdeithasol) yn cael eu hadolygu a bydd penderfyniadau yn cael eu penderfynu gan Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT.

2.2 Bydd y penderfyniadau o ddydd i ddydd sydd eu hangen ar achosion a cheisiadau unigol yn cael eu penderfynu gan Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn unol â'r polisi. Cynhelir adolygiadau gan uwch

swyddog priodol pan fydd y rhain yn cael eu cyflwyno, a gallai hyn arwain at drafod yr adolygiad yn y Panel Tai Lleol lle bydd pob sefydliad partner yn cael cyfle i gyfrannu at benderfyniad yr adolygiad.

2.3 Bydd y Panel Tai Lleol yn goruchwyllo'r polisi, ei weithrediad bob chwarter. Mae'r Panel hwn yn cynnwys cynrychiolydd enwebedig o'r holl bartneriaid sydd â'r pŵer dirprwyedig i wneud penderfyniadau a/neu argymhellion. Bydd y Panel Tai Lleol yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau sydd eu hangen i sicrhau gweithrediad llyfn y polisi. Mewn rhai achosion lle mae newidiadau mawr yn cael eu cynnig i'r polisi dyrannu, bydd angen cymeradwyaeth ffurfiol gan Fwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn y Cyngor llawn a byrddau cynrychioliadol pob sefydliad partner. I gael rhagor o wybodaeth ar gyfer y Panel Tai Lleol gweler adran 24.

3. Cymhwyster i ymuno â chofrestr tai Living Merthyr Tydfil

3.1 Gall unrhyw un dros 16 oed wneud cais i ymuno â'r gofrestr oni bai bod ymgeisydd yn dod o fewn un o'r grwpiau sy'n cynnwys ymgeiswyr anghymwys a nodir yn adran 4. Fodd bynnag, os ydych chi o dan 18 oed bydd angen asesu gallu ymgeisydd i reoli eiddo. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi â bod yn ddeiliad contract yn ifanc ac nad ydynt yn colli unrhyw eiddo a gynigir oherwydd diffyg cymorth. Gall hyn gynnwys atgyfeiriad at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu wasanaethau cymorth eraill i sicrhau bod y cymorth priodol ar waith. Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn nodi na all unigolyn o dan 18 oed ddal Contract Galwedigaethol ac efallai y bydd gofyniad i gael gwarantydd i weithredu ar ei ran hyd at 18 oed. Bydd y math o Drwydded neu gytundeb a ddefnyddir yn cael ei bennu gan y Landlord Cymunedol Cofrestredig, sef yr hyn y maent yn ei ystyried yn briodol ar gyfer amgylchiadau'r ymgeisydd.

3.2 Bydd ceisiadau ar y cyd yn cael eu derbyn gan ddau unigolyn sy'n briod, mewn partneriaeth sifil, yn cydfyw, yn frodyr a chwiorydd, yn rhiant a mab/merch, dau unigolyn lle mae un yn ofalwr i'r llall neu grwpiau o ddau ffrind neu fwy sy'n dymuno byw gyda'i gilydd. Yn yr achosion hyn, bydd y partner Landlord Cymunedol Cofrestredig sy'n dyrannu'r eiddo yn trafod yr opsiynau contract galwedigaethol sydd ar gael ac yn cynnig y math mwyaf priodol o gontract yn seiliedig ar amgylchiadau unigol pob achos; gall hyn gynnwys penderfyniadau i beidio ag awdurdodi contractau ar y cyd i ymgeiswyr ar y cyd. Lle gwneir penderfyniad i beidio â chaniatáu contract ar y cyd, mae'n bosibl y bydd angen cyfeirio at y Panel Tai Lleol os yw'r ymgeiswyr ar y cyd yn dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad gyda'r Landlord Cymunedol Cofrestredig partner; bydd hyn yn darparu sail ar gyfer adolygu'r penderfyniad a lle bo angen y gellir cytuno ar argymhellion i weithio tuag at gontract ar y cyd.

3.3 Gall unigolion o dramor wneud cais i ymuno â chofrestr Living Merthyr Tydfil a chânt eu hystyried ar gyfer tai yn unol â'r polisi hwn ar yr amod:

- Bod ganddynt ganiatâd eithriadol neu amhenodol i aros yn y DU, neu;
- Eu bod wedi cael statws ffoadur, neu'n preswyllo'n arferol yn y DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Weriniaeth Iwerddon
- Nid ydynt yn perthyn i un o'r grwpiau a nodir yn Adran 4 y polisi hwn

3.4 Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod ei bod yn drosedd i roi gwybodaeth ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll i, neu atal gwybodaeth yn fwriadol a all olygu dirwy o hyd at £5000 ac a fydd yn arwain at ddileu eu cais am

dŷ trwy'r polisi hwn. Bydd partneriaid hefyd yn gallu dwyn achos meddiant yn erbyn unrhyw ddeiliad contract y cynigiwyd llety iddo ar sail darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol.

4. Pwy sy'n anghymwys i ymuno â Living Merthyr Tydfil?

4.1 Mae'r gyfraith yn amlinellu ei bod yn bosibl na fydd rhai pobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo yn cael tai ac felly ni fyddant wedi'u cofrestru ar gofrestr Living Merthyr Tydfil. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Pobl â chyfyngiadau neu amodau ar eu caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y DU.
- Pobl sydd wedi dod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon neu sydd wedi aros yn hirach nag yr oedd ganddynt yr hawl i aros.
- Pobl nad ydynt yn preswyl fel arfer yn y DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu weriniaeth Iwerddon.

4.2 Defnyddir y term "preswyl arferol" i ddisgrifio'r wlad lle mae ymgeisydd yn byw'n barhaol ac sydd â chysylltiadau megis cyfrif banc, cyflogaeth yn y gorffennol neu'r presennol, eiddo personol, llety a theulu. Gofynnir i ymgeiswyr a gyrhaeddodd y DU yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf ddarparu gwybodaeth i alluogi Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT asesu a ydynt yn preswyl fel arfer ac felly gellir eu hystyried ar gyfer tai.

4.3 Seilir asesiadau ar y wybodaeth a ddarperir gan ymgeisydd unigol ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a geir o ymchwiliadau a wnaed gydag asiantaethau a sefydliadau perthnasol.

5. Proses ymgeisio

5.1 Nod partneriaid Living Merthyr Tydfil yw gwneud y broses ymgeisio mor hawdd â phosibl gyda cheisiadau yn gallu cael eu gwneud:

- Ar-lein drwy ymweld â gwefan - livingmerthyrtydfil.org.uk
- Yn bersonol (gyda gwasanaethau galw heibio lleol)
- Dros y ffôn

5.2 Bydd trefniadau priodol yn cael eu gwneud i gynorthwyo a chefnogi pobl agored i niwed sy'n dymuno gwneud cais am dŷ trwy Living Merthyr Tydfil i sicrhau nad ydynt dan anfantais mewn unrhyw ffordd. Bydd Partneriaeth Living Merthyr Tydfil yn ceisio lleihau eu hól troed carbon trwy leihau'r defnydd o gynnyrch papur. Fodd bynnag, mae'r bartneriaeth yn cydnabod na fydd gan bawb fynediad at gyfrifiadur neu borwr gwe ac efallai na fyddant yn gallu ymweld yn bersonol i gael cymorth i wneud cais ar-lein. Gellir cael copïau papur felly ar gais mewn amgylchiadau eithriadol gan y Ganolfan Ddinesig neu wasanaethau cyngor Tai eraill gan gynnwys gan bartneriaid Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig. Mae yna hefyd ganllaw ar sut i gofrestru ar [\(council website link\)](#) neu gellir ei gael o'r adeilad dinesig neu wasanaethau galw heibio eraill.

5.3 Dim ond ar ôl derbyn y ddogfennaeth ategol ofynnol y caiff ceisiadau eu hasesu. Unwaith y bydd yr holl dystiolaeth ategol wedi'i derbyn, bydd tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn gwirio'r wybodaeth a

ddarparwyd, yn gofyn am unrhyw ddogfennaeth ategol bellach sydd ei hangen ac yn rhoi cyngor a gwybodaeth i'r ymgeisydd am y cynllun, ei weithrediad ac unrhyw opsiynau ac atebion eraill y gellid eu dilyn. Gofynnir am y wybodaeth yn ysgrifenedig trwy lythyr / e-bost i'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd ar gyfer y cais. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod eu manylion cyswllt yn cael eu cadw'n gyfredol a bod unrhyw wybodaeth ategol sydd ei hangen yn cael ei hychwanegu trwy fewngofnodi i'w cyfrif gwefan Living Merthyr Tydfil.

5.4 Wrth brosesu cais bydd tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn:

- Gwirio bod yr ymgeisydd yn gymwys
- Sefydlu a oes gan yr ymgeisydd unrhyw anghenion cymorth uniongyrchol
- Cwblhau rhestr wirio syml i gofnodi gwybodaeth bersonol a chartref sylfaenol at ddibenion monitro gwasanaeth.
- Cynnig amrywiaeth o gyngor a gwybodaeth am dai i helpu'r ymgeisydd i benderfynu a yw Living Merthyr Tydfil yn mynd i fod o gymorth iddynt, gan gynnwys
 - Band blaenoriaeth tebygol yr ymgeisydd
 - Beth mae bandio blaenoriaeth yn ei olygu
 - Gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer y math o lety y maent yn gymwys ar ei gyfer mewn ardaloedd y maent yn dymuno byw ynddynt.
 - Cyngor ar opsiynau tai eraill a allai fod ar gael iddynt sy'n briodol i'w hamgylchiadau.
 - Beth fydd eu cyfrifoldeb a'u hawliau fel tenant tai cymunedol.

5.5 Ar ôl cyflwyno'r cais bydd gan yr ymgeisydd 28 diwrnod i ddarparu prawf o'u hunaniaeth ac unrhyw un arall sy'n gwneud cais fel cyd-ymgeisydd. Bydd angen gwybodaeth ychwanegol hefyd i gefnogi eu cais i Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT wneud ymholiadau rhesymol i'w hamgylchiadau a'u hanghenion tai fel y gellir gwneud asesiad cywir; bydd tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn ymdrechu i ddilysu'r cais ac adolygu unrhyw wybodaeth ategol cyn pen 21 diwrnod i dderbyn y wybodaeth. Bydd ceisiadau'n cael eu canslo ar ôl i 28 diwrnod fynd heibio lle nad yw'r ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth.

5.6 Bydd ymgeiswyr yn destun gwiriadau ynghylch eu haddasrwydd i fod yn ddeiliad contract (tenant) yn ystod y cam ymgeisio cychwynnol a chaiff y gwiriadau hyn eu dilysu fel y manylir yn y ddogfen bolisi hon. Mae trefniadau rhannu data priodol ar waith ar draws partneriaid Living Merthyr Tydfil ac adolygir manylion y trefniadau yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth.

5.7 Ar ôl cwblhau ymholiadau ac ar ôl derbyn y wybodaeth ofynnol, bydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i'w hysbysu o ganlyniad eu cais. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod sut mae'r cynllun yn gweithredu. Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei darparu i ymgeiswyr nad ydynt wedi bod yn llwyddiannus, a bydd hwn yn amlinellu'r rhesymau pam. Yn y ddau achos, bydd gan ymgeisydd yr hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a wnaed. Ceir manylion y broses adolygu yn Adran 19.

6. Asesu Blaenoriaeth

6.1 Bydd pob cais cymwys yn cael ei fandio gan Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT ar ôl cwblhau cofrestrriad llwyddiannus a'u bandio yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd. Os bydd cais yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n newid eu hamgylchiadau yn sylweddol, bydd hyn yn ysgogi i Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT adolygu'r cais. Bydd canlyniad yr adolygiad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd ac fe all arwain at symud lefel eu blaenoriaeth i fyny neu i'r gwrthwyneb, i lawr. Yn y naill achos neu'r llall, bydd ymgeiswyr yn cael cadarnhad ysgrifenedig o hyn trwy lythyr neu e-bost i'r cyfeiriad e-bost a ddarperir gan yr ymgeisydd ar y cais.

6.2 Bydd unrhyw newidiadau i fandio yn dilyn adolygiad o'r cais boed yn symud i fyny neu'n symud i lawr yn dod i rym o'r dyddiad y daw'r dystiolaeth i law a'r dyddiad y gwneir y penderfyniad, os bydd y penderfyniad yn arwain at newid.

6.3 Bydd penderfyniadau band blaenoriaeth a wneir gan Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn seiliedig ar gymhwyster ymgeisydd o fewn y cynllun a'r meini prawf band blaenoriaeth a nodir yn y polisi hwn. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yn unig yw rhoi gwybod i Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT o unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau a allai effeithio ar ei gymhwyster a lefel y flaenoriaeth a roddir o dan y polisi hwn.

6.4 Rhaid i ymgeiswyr (neu eu heiriolwyr) sy'n ceisio dyfarniad blaenoriaeth uwch gydymffurfio â gofynion Living Merthyr Tydfil a chwblhau a dychwelyd y wybodaeth berthnasol y gofynnir amdani er mwyn gallu prosesu eu cais. Er nad yw'n rhestr gyflawn, gall gwybodaeth o'r fath gynnwys holiadur meddygol wedi'i gwblhau, asesiad gorlenwi neu dystiolaeth ategol gan lechyd yr Amgylchedd ac ati. Bydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn ystyried cyngor ategol a datganiadau gan weithwyr proffesiynol lle bo hynny'n berthnasol ac yn angenrheidiol.

6.5 Wrth wneud cais i ymuno â'r gofrestr tai gyffredin, ni ddylai ymgeiswyr fod wedi gwaethygu eu hamgylchiadau yn fwriadol am unrhyw reswm, er enghraifft trwy ganiatáu'n fwriadol i'w cartref ddod yn orlawn (gellir ystyried amgylchiadau eithriadol e.e. i ddarparu neu dderbyn gofal) mewn ymgais i geisio ennill blaenoriaeth uwch. Rhaid i unrhyw gais am flaenoriaeth uwch fod yn berthnasol i'r cartref y maent yn ei feddiannu ar hyn o bryd a sut mae hyn yn effeithio'n andwyol arnynt hwy a/neu aelod o'u haelwyd ar eu cais a rhaid iddynt ddangos pam na allant yn rhesymol barhau i fyw yno. Dyma rai enghreifftiau o wneud amgylchiadau'n waeth yn fwriadol:

- Ymgeiswyr sydd wedi caniatáu i aelodau o'r teulu neu eraill symud i mewn i'w heiddo, a oedd â llety addas yn flaenorol neu'r modd ariannol i sicrhau eu llety eu hunain, ac mae hyn wedi arwain at orlenwi'r eiddo presennol.
- Ymgeiswyr sydd wedi symud o lety blaenorol addas neu fwy addas yr oedd yn rhesymol iddynt barhau i'w feddiannu, i mewn i eiddo llai addas.
- Perchnogion tai sydd wedi trosglwyddo eu heiddo i aelod arall o'r teulu o fewn y 6 blynedd diwethaf o'r dyddiad y maent yn gwneud eu cais i fod ar y Gofrestr.
- Rhoi'r gorau i lety rhent preifat fforddiadwy ac addas y gallant ei gynnal, i symud i mewn gyda pherthnasau neu ffrindiau eraill, gan greu sefyllfa o orlenwi a/neu rannu ystafell ymolchi/cegin a/neu aelwyd wedi'i rhannu;
- Gofyn neu gydgyllwynio â landlord neu aelod o'r teulu i roi Hysbysiad Ymadael iddynt.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn o enghreifftiau a bydd pob achos yn cael ei asesu fesul achos.

6.6 Wrth ddod i benderfyniad, bydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn ystyried a oes opsiynau eraill ar gael i ddatrys neu liniaru'r anawsterau hyn a chaniatáu i'r ymgeisydd aros yn ei gartref ei hun. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys darparu cymorth, cymhorthion/addasiadau neu gwblhau gwelliannau rhesymol sy'n ofynnol o dan Gategori 1 y System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai. Bydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn gallu cyfeirio a chynghori â phwy i gysylltu yn yr achosion hynny sydd fwyaf perthnasol i'r angen.

6.7 Bydd disgwyl i ymgeiswyr ym Mand 1/blaenoriaeth uwch is gael eu rhoi ar gynnig awtomatig oherwydd yr angen brys am lety. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir adolygu hyn lle mae cyfiawnhad rhesymol i beidio â chymhwyso cynnig awtomatig. Yn seiliedig ar y wybodaeth ategol a dderbyniwyd, bydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn defnyddio eu disgrisiwn wrth wneud y penderfyniad a ddylid defnyddio'r swyddogaeth cynnig awtomatig. Os penderfynir bod achos yr ymgeisydd yn cael ei dderbyn i fod yn Fand 1 ac na fydd cais am gynnig awtomatig wedi'i gyflwyno, bydd disgwyl i'r ymgeisydd wneud cais yn rheolaidd am eiddo addas a hysbyseb, bydd y ceisiadau hyn yn cael eu monitro a lle mae ymgeiswyr wedi methu â gwneud cais am eiddo addas sy'n cael ei hysbysebu, efallai y bydd lefel eu blaenoriaeth yn cael ei lleihau.

6.8 Mewn achos lle dyfernir Band 1 i ymgeiswyr oherwydd bod dyletswydd Ddigartrefedd yn ddyledus iddynt, rhaid gwneud cais am gynnig awtomatig ar gyfer pob ardal oherwydd y brys i gael cartref fel blaenoriaeth. Bydd ardaloedd sydd wedi'u gwahardd yn cael eu hystyried ar yr amod bod digon o dystiolaeth ategol wedi'i darparu i gadarnhau pam a ble na allwch breswyllo. Bydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn adolygu'r wybodaeth ategol ac yn defnyddio eu disgrisiwn wrth wneud penderfyniad.

6.9 Mewn achos lle dyfernir Band 1 Blaenoriaeth Is neu Fand 2 i ymgeisydd, bydd band blaenoriaeth ceisiadau yn cael ei leihau yn unol ag adran 10 y polisi os ydynt wedi gwrthod 2 gynnig rhesymol o lety. Lle mae dyletswydd ddigartrefedd yn ddyledus i ymgeisydd ac y gwrthodir 1 cynnig rhesymol o lety, bydd hyn yn arwain at adolygiad o'r cais Digartrefedd a dileu'r ddyletswydd o ganlyniad a allai hefyd arwain at gollu unrhyw statws band blaenoriaeth a ddarperir.

6.10 Caniateir i ymgeiswyr sydd heb gysylltiad lleol â Merthyr Tudful gofrestru ar Living Merthyr Tydfil ond ni ddyfernir blaenoriaeth ychwanegol iddynt. At ddibenion y polisi hwn, bydd gan ymgeisydd gysylltiad lleol â Merthyr Tudful os gallant hwy neu un o'u hoedolion sy'n aelodau o'u haelwyd ddangos:

- Eu bod wedi byw yn y Fwrdeistref Sirol am 3 blynedd allan o'r 5 mlynedd diwethaf neu 6 mis allan o'r 12 mis diwethaf.
- Bod ganddynt waith cyflogedig parhaol llawn amser yn y Fwrdeistref Sirol am o leiaf 6 mis cyn dyddiad y cais.
- Bod ganddynt gysylltiadau teuluol agos yn y Fwrdeistref Sirol, h.y rhieni a/neu frodyr a chwiorydd neu rywun cyfatebol, a bod yr ymgeisydd mewn cysylltiad agos rheolaidd â'r aelod hwnnw o'i deulu. Bydd angen i'r teulu hwn fod wedi byw yn y fwrdeistref am bum mlynedd neu fwy.
- Gallant ddarparu tystiolaeth o resymau eithriadol pam fod angen iddynt aros ym Merthyr Tudful.

7. Y System Bandio Blaenoriaeth

7.1 Mae cynllun Living Merthyr Tydfil yn seiliedig ar system fandio blaenoriaeth a ddefnyddir i bennu pwy fydd yn cael tai a gaiff eu hysbysebu drwy'r cynllun. Bydd nifer o eiddo heb eu hysbysebu drwy gynllun Living Merthyr Tydfil gan y bydd y rhain yn cael eu neilltuo ar gyfer unigolion neu aelwydydd sy'n gorfod symud am resymau brys.

7.2 Mae'r system fandio yn cynnwys pum grŵp o fandiau o angen tai sydd wedi'u cynllunio i ystyried y pwysau yn y fwrdeistref sirol. Manylir ar y bandiau isod, ond maent yn eu hanfod:

- Band 1 - Blaenoriaeth Ddigartrefedd Brys
- Band 1 Blaenoriaeth Uchel –Blaenoriaeth is¹–
- Band 2 – Blaenoriaeth ganolig
- Band 3 – Blaenoriaeth isel
- Dim Band Blaenoriaeth

7.3 Mae'r tabl isod yn rhoi amlinelliad o'r rhesymau a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i bennu'r flaenoriaeth a roddir i ymgeiswyr.

Band	Blaenoriaeth	Categori
Band 1	Blaenoriaeth Ddigartrefedd Brys	<ul style="list-style-type: none"> • Pobl sy'n ddigartref ac yr aseswyd bod dyletswydd ddigartrefedd a75 yn ddyledus iddynt. • Pobl sydd angen symud oherwydd tân neu lifogydd, neu ddifrod storm difrifol i'w cartref ac sydd heb le arall i aros dros dro ac sydd angen llety dros dro. • Ymgeiswyr sydd angen symud ar unwaith oherwydd cam-drin domestig a/neu drais rhywiol ac sydd wedi gorfod cael lloches neu lety dros dro ac sydd wedi cael eu trafod yn MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth). Bydd ardaloedd risg yn cael eu heithrio o gais yr ymgeisydd. • Ymgeisydd sydd ag angen brys i symud am resymau meddygol neu les sylweddol (gan gynnwys anabledd) ac nad yw'n gallu cael ei ryddhau'n ddiogel o'r ysbyty i'w gartref presennol oherwydd pryderon diogelwch. • Pobl sy'n byw mewn llety â Chymorth a ariennir gan yr Awdurdod Lleol ac y cytunwyd drwy'r broses camu ymlaen eu bod yn barod i gamu ymlaen i eiddo annibynnol. • Pobl ddigartref sy'n gadael y carchar ac sydd wedi'u dosbarthu fel troseddwr MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd) Lefel 2 a 3; ac y mae dyletswydd a75 yn debyg o fod yn ddyledus.
Band 1	Uchel	<ul style="list-style-type: none"> • Mae pobl lle mae wedi cael ei ddilysu gan y Cyngor, yn cysgu ar y stryd ym Merthyr Tudful

¹Oherwydd cyfyngiadau system defnyddir blaenoriaeth is" i wahanu'r flaenoriaeth Digartrefedd oddi wrth bob cais arall ac nid yw'n lleihau blaenoriaeth ymgeiswyr ymhellach.

<p>Blaenoriaeth Is</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Pobl sydd angen symud oherwydd tân neu lifogydd, neu ddifrod storm difrifol i'w cartref sydd â lle arall i aros dros dro megis gyda ffrindiau/teulu. • Aelwydydd sy'n byw mewn amodau sy'n arwain at risg uniongyrchol o niwed difrifol a lle mae'r Cyngor wedi cyflwyno Gorchymyn Gwahardd Brys o dan Ran 1 Deddf Tai 2004. • Gorboblogi o 2 ystafell wely neu fwy wedi'i fesur yn ôl y safon ystafell wely h.y lle mae swyddog y Cyngor wedi gwneud asesiad gan ddefnyddio'r system Mesur Iechyd a Diogelwch Tai ac wedi dod i'r casgliad bod risg uchel difrifol o niwed oherwydd effaith gorlenwi difrifol. • Dymchwel neu Orchymyn Prynu Gorfodol (CPO). Lle mae eiddo'r ymgeisydd yn destun i'w ddymchwel neu'n destun Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyfer ailddatblygu. • Ymgeiswyr heb fynediad i unrhyw un o'r cyfleusterau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Ystafell ymolchi neu gegin Toiled tu mewn Cyflenwadau dŵr poeth neu oer, trydan, nwy neu wres digonol. <i>(Sylwer: Ymgeiswyr sydd â mynediad at gyfleusterau a rennir mewn llety a rennir - ni fyddant yn gymwys o dan y maen prawf hwn)</i> • Ymgeisydd sydd ag angen mawr i symud am resymau meddygol neu les sylweddol (gan gynnwys anabled), sy'n cael eu gwaethygu gan eu sefyllfa dai presennol a fydd yn cael ei gwella trwy symud i lety mwy addas ond sy'n gallu aros mewn eiddo dros dro gyda chymorth/ gofal. • Ymgeiswyr sydd angen symud ar unwaith oherwydd cam-drin domestig a/neu drais rhywiol ond sy'n gallu aros dros dro yn yr eiddo presennol gyda mesurau caledu targed ar waith ac maent wedi cael eu trafod yn MARAC. Bydd ardaloedd risg yn cael eu heithrio o gais yr ymgeisydd. • Ymgeiswyr sydd angen symud ar unwaith oherwydd trais eithafol neu aflonyddu eithafol fel y cadarnhawyd gan yr heddlu neu asiantaethau cyhoeddus perthnasol eraill. • Lle gellir priodoli marwolaeth ei briod neu bartner (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) i'w gwasanaeth Milwrol a bod hawl y priod neu bartner sifil mewn profedigaeth i breswyllo yn llety'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dod i ben. • Pan fo tenant tai cymdeithasol yn byw mewn eiddo sydd wedi'i addasu'n sylweddol a bod newid mewn amgylchiadau wedi golygu nad oes angen yr addasiad sylweddol ar y deiliad presennol mwyach. • Pobl sy'n gadael gofal (nad ydynt yn byw mewn llety a ddarparwyd gan Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT fel llety dros dro/llety â chymorth) yn cael eu hystyried yn barod i symud allan o leoliad presennol gan Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT a Gwasanaethau Cymdeithasol (Panel Camu Ymlaen).
<p>Band 2</p>	<p>Canolig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgeiswyr yr oedd dyletswydd atal ddigartrefedd a66 yn ddyledus iddynt (Dim ond lle mae'r Landlord wedi cychwyn achos meddiannu ffurfiol gyda'r Llys) (<i>Bydd y band yn cael ei ôl-ddyddio i'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad neu os yw Band 2 eisoes am reswm</i>

		<p><i>angen blaenoriaethol arall a'r dyddiad yn rhagflaenu'r hysbysiad, y dyddiad bydd yn aros yr un fath.)</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgeiswyr y mae dyletswydd ddiartrefedd A73 yn ddyledus iddynt (ond dim ond am gyhyd ag y mae'r ddyletswydd honno'n ddyledus i'r ymgeisydd) (<i>Bydd ymgeiswyr y mae dyletswydd A66, neu A73, neu A75 arnynt gan Gyngor arall yn cael Band 3</i>) • Pan ddaw dyletswydd a73 i ben ac nad oes dyletswydd derfynol (a75) yn ddyledus – bydd yr ymgeisydd yn aros ym Mand 2 am uchafswm o 52 wythnos o ddiwedd y ddyletswydd a73. • Ymgeiswyr sy'n byw mewn llety sy'n strwythur symudol, fel carafán, ond nid oes lle cyfreithlon y gallant ei osod yn gyfreithlon a byw ynddo • Rhesymau meddygol Cronig/Aciwt Difrifol (gan gynnwys anabled) sydd â chyswllt CLIR ac UNIONGYRCHOL ag amgylchiadau tai presennol, a fyddai'n gwella'n sylweddol drwy ailgartrefu. • Rhesymau Lles Arwyddocaol megis: dioddefwr ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol sy'n effeithio ar gyflwr iechyd meddwl presennol yr ymgeisydd(ymgeiswyr) neu lle mae mynediad at amwynderau lleol o'u cartref presennol yn cael ei rwystro'n sylweddol gan faterion symudedd yr ymgeisydd • Mae'r cartref yn orlawn o 1 ystafell wely • Tenantiaid Cymunedol (cymdeithasol) presennol sy'n tanfeddiannu eu cartref ac sydd angen symud i eiddo llai oherwydd caledi ariannol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r ymgeisydd hefyd ddangos eu bod hefyd yn ceisio datrys y sefyllfa h.y cyflwyno DHP i gynorthwyo gyda'r taliadau hyd nes y gallant sicrhau llety arall. • Lle mae swyddog awdurdodedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi pennu bod eiddo rhent preifat yn cynnwys un neu fwy o beryglon Categori 1 difrifol fel y'u diffinnir gan y System Mesur Iechyd a Diogelwch Tai ac nad oes unrhyw ragolygon y bydd y problemau'n cael eu cywiro ymhen cyfnod o amser y mae Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ei ystyried yn rhesymol. • Meddianwyr sy'n berchnogion a deiliaid contract rhentu preifat yn dioddef caledi ariannol o ganlyniad uniongyrchol i'w cartref presennol • Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog sydd wedi gwasanaethu yn y pum mlynedd cyn dyddiad eu cais • Cymorth gyda chaledi: ymgeiswyr sydd â thystiolaeth amlwg eu bod yn darparu, neu'n derbyn, cymorth sylweddol a pharhaus i, neu gan, berthnasau neu ffrindiau. Bydd hyn ond yn cael ei ystyried pan fo materion meddygol neu les sylweddol gan gynnwys seiliau yn ymwneud ag anabled; ac mae rhesymau dilys pam na ellir cyflawni neu gynnal y cymorth hwn trwy ddibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus neu gludiant personol yr ymgeisydd • Caledi Cyflogaeth: rhoddir blaenoriaeth mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Rhaid i ymgeiswyr ddangos bod angen iddynt symud i fanteisio ar neu i barhau â chyflogaeth nad yw ar gael yn unman arall. Byddant ond yn cael eu hystyried pan nad ydynt yn byw o fewn pellter cymudo rhesymol ar hyn o bryd.
--	--	---

Band 3	Isel	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ymgeisydd arall sy'n gymwys i gael ei gofrestru ond nad oes ganddynt flaenoriaeth <i>ffafriaeth resymol statudol</i> ar gyfer bandiau 1 neu 2. • Roedd dyletswydd atal ddigartrefedd A66 yn ddyledus i ymgeiswyr, ond cadarnhawyd y gellir cymryd camau i atal y troi allan. • Y rhai sydd wedi cael band blaenoriaeth yn flaenorol ond sydd wedi gwrthod 2 gynnig rhesymol o eiddo addas; y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth ategol addas newydd i gadarnhau eu bod yn dal i fod angen band uwch am reswm blaenoriaeth. • Meddu ar ôl-ddyledion rhent/dyled sy'n ymwneud â thai sy'n gyfredol neu ar gyfer contractau tenantiaeth/mediannaeth flaenorol a bod gennych cynllun ad-dalu ar waith. Os oes angen band blaenoriaeth gellir ei asesu ar ôl cadw at y cynllun ad-dalu rhent a bod yr ymgeisydd wedi hysbysu bod y cynllun ad-dalu wedi'i gwblhau.²
Dim Blaenoriaeth		<ul style="list-style-type: none"> • Ymgeiswyr sy'n gymwys i ymuno â'r gofrestr ond nad ydynt wedi cael unrhyw flaenoriaeth am nifer o resymau a nodir yn y polisi gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Methiant i fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent blaenorol neu ddyledion cysylltiedig â thai fel y nodir yn y meini prawf ad-dalu dyled neu fel y cytunwyd gyda'r Landlord Cymunedol Cofrestredig Partner. • Methiant i fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol ac mae wedi'i asesu trwy'r Panel Tai Lleol fel y nodir yn y polisi hwn. • Y rhai na ystyrir eto ei fod yn barod i gamu ymlaen ac yn barod i gynnal contract Galwedigaethol fel y nodir yn y broses camu ymlaen Tai â Chymorth a Llety Dros Dro. • Y rhai sydd wedi gwneud cais am leoliad i Ofal Ychwanegol ac sy'n mynd trwy'r broses banel neu wedi cael eu derbyn i'r rhestr dyraniadau ar gyfer Gofal Ychwanegol. • Y rhai sydd wedi gwrthod 2 gynnig rhesymol o lety ac wedi cael eu rhoi yn y categori Dim Blaenoriaeth am 3 mis yn dilyn hysbysiad gan Landlord cymunedol o'r ail wrthodiad rhesymol.

7.4 Bydd asesiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr ochr yn ochr ag unrhyw wybodaeth ategol a gafwyd neu a ddarparwyd gan drydydd parti neu sefydliadau. Mae unrhyw asesiad yn dibynnu ar y wybodaeth a ddarperir ac felly os nad yw hwn ar gael neu os nad yw wedi'i ddatgelu, ni ellir ystyried hyn. Yn ogystal, bydd asesiadau'n canolbwyntio ar amgylchiadau tai presennol unigolyn a sut y gallai'r rhain effeithio ar yr ymgeisydd ac unrhyw aelodau o'u haelwyd y byddai disgwyl yn rhesymol iddynt fyw gyda nhw.

²Ac eithrio'r rhai sydd wedi'u hasesu fel dyletswydd Digartrefedd A75/S73.

Enghrefftiau o dystiolaeth ychwanegol y gellir gofyn amdani

Risg o ddigartrefedd	<ul style="list-style-type: none"> Hysbysiad troi allan dilys – gall Swyddog Darganfod Atebion Tai CBSMT gefnogi a rhoi cyngor ar wiriadau pellach a gynhaliwyd i wirio hysbysiad troi allan dilys. Datganiad rhent - Ôl-ddyledion rhent os dyma’r rheswm dros hysbysiad troi allan. Cyswllt gan y Landlord i gadarnhau pam y cyflwynwyd yr hysbysiad troi allan ac a ellir arbed y denantiaeth os cymerir camau.
Digartref	<ul style="list-style-type: none"> Man preswyllo blaenorol a pham y daeth i ben. Gall Swyddog Darganfod Atebion Tai CBSMT ofyn am gyswllt â theulu, ffrindiau neu unrhyw un arall yr oeddech yn byw gydag ef i wirio na allwch aros yn yr eiddo. Sefydlu nad oes gennych gontract meddiannaeth yn eich enw ar gyfer llety yn unman. Os yw pobl yn ddigartref ar y stryd efallai y bydd angen i Swyddogion Darganfod Atebion Tai CBSMT bennu lle rydych wedi bod yn cysgu, os yw'n "cysgu ar sofffa ffrind" a yw'n ddiogel i barhau i wneud hynny.
Camu ymlaen o lety â Chymorth / Dros Dro	<ul style="list-style-type: none"> Cytunwyd gan y darparwr cymorth/gweithiwr cymorth bod yr ymgeisydd yn barod i gamu ymlaen. Trafodwyd a chymeradwywyd gan y swyddog Llety Dros Dro fod yr ymgeisydd yn barod i gamu ymlaen. Mae cais camu ymlaen wedi'i anfon at y Panel Tai Lleol a'i gymeradwyo gan y Panel Tai Lleol. <i>Bydd newidiadau i geisiadau am dai yn cael eu gwneud gan Swyddog Darganfod Atebion Tai CBSMT perthnasol pan hysbysir am gytundeb gan yr holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartner.</i>
Trychineb	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth yn cadarnhau digwyddiad y trychineb gan y gwasanaeth mwyaf perthnasol. Gwybodaeth a gadarnhawyd gan Landlord os yw'n rhentu eiddo oherwydd y trychineb a'r achos; ac ni all yr ymgeisydd aros yn yr eiddo. Nid oes gan y Landlord unrhyw fodd i gynnig llety dros dro addas arall i chi. Ddim yn gallu byw gyda theulu neu ffrindiau ac mae gofyniad i aros mewn llety Dros Dro.
Cyflwr eiddo	<ul style="list-style-type: none"> Cyswllt wedi'i gadarnhau gyda'r landlord os yw'n rhentu; adroddiadau o waith atgyweirio sydd ei angen a chadarnhad nad cyflwr yr eiddo yw achos gweithredoedd yr ymgeisydd megis difrod maleisus neu sut mae'n dewis rheoli'r eiddo; neu angen cymorth wedi'i nodi o bosibl i gael cymorth a chyngor ar sut i reoli'r eiddo. Cyswllt wedi'i gadarnhau ag lechyd yr Amgylchedd – adroddiadau swyddog lechyd yr Amgylchedd o archwiliadau eiddo/Gorchmynion a gyflwynwyd i'r landlord megis gorchmynion gwahardd neu hysbysadau gwella. A yw Llys wedi penderfynu nad yw'r eiddo'n ffit i fod yn gartref.
Angen meddygol/addasiadau	<ul style="list-style-type: none"> Unrhyw dystiolaeth feddygol ategol gan yr unigolyn mwyaf perthnasol sy'n ymwneud â'r anghenion iechyd neu ofal; megis meddyg ymgynghorol, nyrs iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol..... <i>Nid yw hon yn rhestr gyflawn</i> Gwasanaethau cymdeithasol Asesiad gofal ac asesiad COTs yn cael ei ddarparu gan Dîm COT CBSMT neu dîm COT Ysbyty os yw'n fwyaf perthnasol i amgylchiadau.
Nid oes angen addasiadau mwyach	<ul style="list-style-type: none"> Cadarnhad nad yw'r unigolyn yr oedd angen yr addasiadau arno yn yr eiddo bellach yn byw yno. Wedi gwirio bod gan yr eiddo addasiadau gan Landlord nad oes eu hangen mwyach ar yr ymgeisydd. Mae Landlord Cymunedol Cofrestredig Partner yn cefnogi'r symudiad.
Lluoedd arfog	<ul style="list-style-type: none"> Cadarnhad o ryddhad anhwydeddus o'r Lluoedd Arfog. Wedi gwirio nad oes ganddynt unrhyw gyfeiriad arall y maent yn berchen arno neu'n ei brydlesu Mae partner gwasanaeth yr ymgeisydd wedi marw o ganlyniad i wasanaethu yn y lluoedd arfog; gall ddarparu cadarnhad o'r angen i adael llety'r lluoedd arfog.
Trais yn y cartref	<ul style="list-style-type: none"> Cafwyd cadarnhad gan MARAC o'r argymhellid i'w ailgartrefu ar frys. Llythrau ategol gan asiantaeth neu wasanaeth cymorth perthnasol yn darparu gwybodaeth i asesu lefel y flaenoriaeth.
Gorlenwi	<ul style="list-style-type: none"> Cadarnhad o gyfeiriadau ar gyfer pawb sy'n byw yn yr eiddo - cadarnhad derbyniol o gyfeiriad fyddai bil cyfleustodau, slipiau cyflog, datganiadau banc, a llythrau budd-daliadau. Gall Swyddogion Darganfod Atebion Tai CBSMT gynnal ymweliad cartref i asesu lefel y gorlenwi. Maint yr eiddo wedi'i wirio trwy'r Landlord Efallai y gofynnir am ragor o wybodaeth i gadarnhau sut y digwyddodd y gorlenwi.
Tanfeddiannu	<ul style="list-style-type: none"> Maint yr eiddo wedi'i wirio trwy'r Landlord Mae'n bosibl y gofynnir am ragor o wybodaeth ynghylch sut y daeth yr eiddo i fod yn fater o dan feddiannu Asesiad ariannol i asesu a yw'r eiddo'n fforddiadwy – efallai y gofynnir i chi ddarparu datganiadau banc a phrawf o fuddion a rhestr o dreuliau. Mae Landlord Cymunedol Cofrestredig Partner yn cefnogi'r angen i chi symud i eiddo arall.
Fflatiau	<ul style="list-style-type: none"> Wedi gwirio gyda'r Landlord ar ba lawr mae'r eiddo. Mae Landlord Cymunedol Cofrestredig Partner yn cefnogi'r angen i chi symud i eiddo arall. Gwybodaeth ategol nad yw'r fflat yn addas ar gyfer anghenion.
Risg Amddiffyn Plant/Lles	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth ategol gan y gwasanaethau cymdeithasol/diogelu i gefnogi'r angen i symud ar frys.
Angen Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> Prawf cyflogaeth ym Merthyr Tudful; contract parhaol ac rydych wedi bod yn gyflogedig am 6 mis neu fwy gyda'r un cyflogwr. Slipiau cyflog Cytundeb cyflogaeth
Gwerthu eiddo	<ul style="list-style-type: none"> Pam fod angen y gwerthiant e.e, materion iechyd corfforol, bydd angen darparu gwybodaeth ategol feddygol. Ariannol ar ecwiti a gafwyd o werthu eiddo, yr hyn y bydd yr ecwiti yn cael ei ddefnyddio arno. Pam na fu'n bosibl prynu eiddo arall, e.e byngalo i fodloni anghenion yn rhy ddrud/dyled wedi'i thalu. Bydd pob achos yn cael ei asesu fesul achos.
Cais am ystafell wely ychwanegol	<ul style="list-style-type: none"> Tystiolaeth o'r rheswm pam fod angen yr ystafell wely ychwanegol sy'n berthnasol i'r amgylchiadau e.e angen meddygol a lle ychwanegol ar gyfer storio offer meddygol, byddai angen darparu'r wybodaeth ategol feddygol yn unol â'r dystiolaeth o angen meddygol. Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ychwanegol i wirio y bydd yr ystafell wely ychwanegol yn fforddiadwy. Rhoddir cyngor ar yr angen am ystafell wely ychwanegol gan swyddog Darganfod Atebion Tai CBSMT fesul achos.
Statws mewnfudo	<ul style="list-style-type: none"> Prawf o statws Prawf o hawl i arian cyhoeddus

Prawf o feichiogrwydd / Prawf bod gennych blant	<ul style="list-style-type: none">• Ar gyfer pob plentyn ar gais bydd angen prawf o fudd-dal plant.• Ffurflen MatB1 gan Fydwraig fydd yr unig dystiolaeth dderbyniol ar gyfer prawf beichiogrwydd o 26 wythnos y beichiogrwydd.
---	--

14.3 Bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n byw mewn llety â chymorth neu lety dros dro y nodwyd eu bod yn barod i gamu ymlaen gan ddarparwyr cymorth neu Swyddogion Darganfod Atebion Tai CBSMT gyflwyno cais camu ymlaen i'r Panel Tai Lleol. Lle mae'r Panel Tai Lleol ac Arweinydd y Tîm Darganfod Atebion Tai yn cytuno bod unigolyn yn barod i gamu ymlaen i lety parhaol, bydd newidiadau perthnasol yn cael eu gwneud i'r bandio yn unol â'r polisi bandio yn adran 7.

15. Llety i Bobl Hŷn

15.1 Mae ystod o opsiynau tai ar gael i bobl hŷn ym Merthyr Tudful. Mae'r pedwar partner Landlord Cymunedol Cofrestredig yn gweithredu rhyngddynt ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac yn rheoli cynlluniau Gofal Ychwanegol, yn ogystal â chynlluniau llety pobl hŷn neu gynlluniau llety gwarchod.

15.2 Mae'n bosibl y bydd gan bob un o'r partneriaid Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig wahanol feini prawf cymhwyster oed ar gyfer cynlluniau gwahanol; fodd bynnag, bydd meini prawf o'r fath yn cael eu nodi'n glir ar yr hysbyseb eiddo. Gwneir ceisiadau am lety o'r fath trwy Gofrestr Tai Gyffredin Living Merthyr Tydfil yn yr un modd â chartrefi anghenion cyffredinol.

15.3 Mae mynediad at lety Gofal Ychwanegol yn gweithredu y tu allan i gylch gorchwyl y Polisi hwn ac nid yw eiddo Gofal Ychwanegol yn cael eu hysbysebu ar Safle Living Merthyr Tydfil. Ceir rhagor o wybodaeth am Ofal Ychwanegol ([LMT WEBSITE LINK](#)). Rheolir dyraniadau i Lety Gofal Ychwanegol gan y Panel Llety Gofal Ychwanegol.

15.4 Yn ogystal, wrth ystyried opsiynau ar gyfer ymgeiswyr hŷn sy'n dymuno trosglwyddo o dai preifat i dai cymdeithasol, ystyrir a yw anghenion yr unigolyn yn cael eu gwasanaethu'n well mewn gwirionedd trwy addasiadau i'w cartref presennol gyda chymorth gan y Tîm Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol (COT) i gwblhau asesiad a all roi cyngor pellach a allai addasiadau fod yn opsiwn mwy priodol na symud i dai cymunedol.

16. Tai Hygyrch/Eiddo wedi'u Haddasu

16.1 At ddibenion y Polisi hwn – mae *Eiddo wedi'u Haddasu* fel arfer yn rhai sydd wedi derbyn addasiadau lefel isel, cymedrol neu uchel i hwyluso byw'n annibynnol. Ni fydd eiddo sydd wedi derbyn cymhorthion byw'n annibynnol yn unig, megis canllawiau, blwch allweddi ac ati... yn cael eu dosbarthu fel eiddo wedi'i addasu.

16.2 Bydd llety hygyrch yn cael ei hysbysebu trwy broses Living Merthyr Tydfil a bydd gwybodaeth yn cael ei darparu ar yr hysbyseb i nodi'r addasiadau sy'n bresennol yn y llety. Bydd unigolion yr ystyrir bod angen math o dai hygyrch arnynt yn cael eu hasesu'n ofalus ac yn cael caniatâd i wneud cais am lety yr ystyrir ei fod yn hygyrch. Bydd meini prawf yn berthnasol i bob eiddo a bydd y broses o lunio rhestr fer yn dilyn gofynion adran 10 y ddogfen bolisi hon. Fodd bynnag, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r addasiadau presennol a sut mae'r rhain yn bodloni anghenion a gofynion yr ymgeisydd dan sylw. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth ategol berthnasol fel rhan o'u hasesiad i ddangos yr angen am eiddo hygyrch. Gweler y Matrics tystiolaeth yn Adran 7.

16.3 Mae rhai tai cymunedol wedi'u haddasu'n arbennig i fodloni anghenion pobl neu mae potensial iddynt gael eu haddasu i fodloni anghenion pobl. O fewn Merthyr Tudful nid yw tai cymunedol wedi'u haddasu yn cael eu gweinyddu ar wahân i'r Gofrestr Tai Gyffredin, ond yn hytrach, maent yn rhan annatod o'r un system. Bydd nodweddion addasedig eiddo yn cael eu gwneud yn glir yn yr hysbyseb eiddo, a bostiwyd gan y partner Landlord Cymunedol Cofrestredig priodol. Eto, bydd angen i dystiolaeth ategol gael ei ddarparu gan Weithiwr Iechyd Proffesiynol perthnasol neu dîm COT i gefnogi'r angen am yr addasiadau arbenigol.

Er mwyn cael asesiad COT mae'n ofynnol cael angen meddygol fel y tystia meddyg teulu/gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol. Sylwer fod asesiadau COT yn seiliedig ar lety presennol ymgeisydd a lle bo modd byddant yn cynorthwyo i ddarparu cymhorthion ac addasiadau fel y gall ymgeisydd aros yn ei eiddo presennol. Bydd y tîm COT ond yn darparu gwybodaeth ategol i Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT i gefnogi'r angen am symud lle mae wedi'i nodi nad yw'n bosibl darparu cymhorthion/addasiadau yn y llety presennol ac mai'r opsiwn gorau i fodloni anghenion yr ymgeisydd fyddai ei symud i eiddo addas arall. I gael asesiad COT bydd angen i ymgeisydd gysylltu â'r ddesg Derbyn Oedolion ar Ddyletswydd a chwblhau asesiad byr lle gwneir penderfyniad ar y wybodaeth a ddarparwyd os oes angen wedi'i nodi i gael ei atgyfeirio at y tîm COT neu os oes rhan arall o'r gwasanaeth yn fwy priodol.

Caiff eiddo wedi'u haddasu eu categorieiddio yn dibynnu ar lefel yr addasiadau yn yr eiddo; Bydd eiddo wedi'u haddasu yn perthyn i un o ddauategori:

- **Categori A** - bydd gan eiddo un neu fwy o'r canlynol:
 - Teclyn codi
 - Mynediad llawn i gadeiriau olwyn
 - Baddon arbenigol
 - Liff (ar gyfer eiddo gyda 2 ystafell wely neu fwy)
 - Ystafell gawod sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn
- **Categori B** - bydd gan eiddo un neu fwy o'r canlynol:
 - Mynediad gwastad neu gyda ramp
 - Cawod gyda mynediad lefel (neu drothwy isel)
 - Toiled arbenigol
 - Liff grisiau
 - Bwlch drws wedi'i ehangu

16.4 Mae manteision paru anghenion cleientiaid â chartrefi a addaswyd eisoes yn niferus, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig, diogelu arian cyhoeddus, tra hefyd yn caniatáu i ymgeiswyr sydd angen addasiadau barhau i fyw mor dda ac mor annibynnol â phosibl yn y gymuned.

16.5 Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd ddatgan fel rhan o'u cais ar-lein, pa nodweddion wedi'u haddasu (os o gwbl) a fyddai'n ddefnyddiol i'w galluogi i fyw'n annibynnol. Bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr sy'n nodi ar eu ffurflen gais y byddant yn elwa o addasiadau yn eu cartref newydd - yn derbyn galwad ffôn ddilysu, llythyr neu e-bost gan Swyddog Darganfod Atebion Tai CBSMT i drafod neu ofyn am ragor o wybodaeth ac ni fydd y cyfrif yn cael ei actifadu tan fydd y wybodaeth/tystiolaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani wedi'i darparu. Yn unol ag adran 5 y polisi, os na dderbynnir y wybodaeth neu os na hysbysir bod ymdrechion yn cael eu gwneud i adalw gwybodaeth ategol bydd y cais yn cael ei ddileu ar ôl 28 diwrnod.

16.6 Efallai nad Tai Cymunedol yw'r unig ateb neu'r ateb gorau. Pan fo unigolyn yn rhentu'n breifat neu'n berchen ar ei gartref ei hun ar hyn o bryd, efallai y byddai'n fwy priodol ystyried addasu cartref presennol yr unigolyn yn hytrach na'i symud. Ymhellach, gall mân gymhorthion gynorthwyo'r unigolyn i fyw'n fwy annibynnol yn ei gartref presennol; os yw hyn yn wir dylai'r ymgeisydd gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i Oedolion i gael asesiad Therapi Galwedigaethol Cymunedol (COT).

Lle mae ymgeisydd yn cael trafferth cynnal ei annibyniaeth yn ei gartref presennol, mae opsiynau eraill y gall yr ymgeisydd eu hystyried -

- Efallai y byddai'n fwy priodol ac amserol ystyried symud drwy werthu eiddo presennol a phrynu cartref wedi'i addasu neu gartref hygyrch drwy gael cymorth gan y Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) drwy'r grant adleoli ar yr amod bod hyn yn argymhelliad gan dîm y COT fel rhan o'r broses DFG.
- Cais am Gynllun Gofal Ychwanegol os yw hwn yn argymhelliad yn dilyn asesiad gofal i oedolion. Gellir darparu gwybodaeth bellach trwy'r polisi Dyraniadau Gofal Ychwanegol.

- Nid yw addasiadau i breswylfeydd preifat unigolyn bob amser yn rhesymol nac yn ymarferol. Os nad yw'n ariannol hyfyw i werthu'r eiddo presennol er mwyn symud, efallai mai cais i symud i dai cymunedol sy'n eiddo i un o'n partneriaid Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig yw'r opsiwn mwyaf priodol yn seiliedig ar yr amgylchiadau unigol a fyddai'n destun asesiad.

16.7 Mae'r partner Landlord Cymunedol Cofrestredig yn cadw'r hawl i wahardd addasiadau pellach i stoc sydd eisoes wedi'u haddasu ac i wahardd unrhyw addasiadau i stoc anghenion cyffredinol presennol.

16.8 Lle mae ymgeisydd eisoes yn byw mewn eiddo wedi'i addasu, ac nad yw'r aelod o'r aelwyd sydd angen yr addasiadau yn byw yn yr eiddo mwyach, ond nad oes angen yr addasiadau ar yr ymgeisydd, bydd ystyriaeth yn cael ei roi wrth asesu ei fand yn unol ag adran 6 i gynnig band blaenoriaeth i symud allan o'r eiddo er mwyn caniatáu i'r eiddo ddod ar gael i'r rhai sydd angen yr addasiadau.

17. Meddianwyr sy'n berchnogion

17.1 Caniateir i feddianwyr sy'n berchnogion gofrestru ar gyfer llety a bydd eu hanghenion llety yn cael eu hasesu yn unol â darpariaethau'r polisi hwn. Lle mae angen amlwg i feddiannydd sy'n berchennog symud i lety arall, yna rhoddir ffafriaeth resymol iddo o dan ddarpariaethau'r polisi hwn er mwyn ei gynorthwyo i geisio sicrhau llety addas arall.

17.2 Lle mae meddiannydd sy'n berchennog wedi gorfod gwerthu ei eiddo boed hynny oherwydd caledi ariannol, tor-perthynas neu resymau iechyd corfforol posibl lle nad yw bellach yn gallu cynnal yr eiddo; gellir cyfeirio ei gais at y Panel Tai Lleol am benderfyniad i dderbyn bod yr ymgeisydd yn cael band blaenoriaeth fel y nodir yn adran 7 y polisi.

17.3 Bydd yn ofynnol i'r Panel Tai Lleol asesu a gwneud penderfyniad ar sail amgylchiadau unigol –

- Pam fod angen gwerthu'r eiddo.
- Yr amgylchiadau ariannol megis; ecwiti a gafwyd ac nad oedd angen ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall (e.e, datrys dyled) ac os oes digon o arian i gael llety arall trwy rent preifat neu bryniant pellach.
- Amodau'r farchnad eiddo lleol os oes angen eiddo penodol i fodloni ei angen am dŷ. Fel byngalo neu eiddo wedi'i addasu a allai fod yn anodd neu'n anfforddiadwy i'w brynu.

18. Eithriadau i'r broses gyffredinol

18.1 Mewn rhai amgylchiadau, gall partneriaeth Living Merthyr Tydfil ddefnyddio ei ddisgresiwn i ddyrannu eiddo yn uniongyrchol. Mae hyn yn ychwanegol at y trefniadau camu ymlaen ar wahân y cyfeirir atynt yn y ddogfen bolisi hon a bydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Unigolion sy'n tanfeddiannu eiddo hynod ddymunol sydd ag anghenion a gofynion tai penodol.

- Llety dros dro ar gyfer ymgeiswyr y mae'n ofynnol iddynt adael eu cartref er mwyn gwneud gwaith mawr hanfodol.
- Lle mae eiddo wedi'i addasu, a bod yr addasiadau'n eang, a bod yr ymgeisydd yn gwybod bod angen yr eiddo dan sylw o ystyried yr addasiadau sy'n bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol.
- Lle mae risg o niwed i neu gan unigolyn sy'n gofyn am ddull aml-asiantaeth i reoli'r risg.
- Lle mae angen eiddo at ddefnydd y cynllun Tai yn Gyntaf.
- Lle mae angen eiddo i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau corfforaethol a statudol.
- Lle bu anawsterau eithriadol yn neu'n agos i'r eiddo sydd ar gael i'w osod.
- Lle bu digwyddiad mawr fel tân neu lifogydd a bod yr unigolyn dan sylw angen tŷ ar frys o ganlyniad.

18.2 Bydd penderfyniadau a wneir y tu allan i'r broses arferol yn cael eu cytuno gan bartneriaid naill ai'n unigol neu ar y cyd yn dibynnu ar natur yr achos. Ym mhob achos bydd partneriaeth Living Merthyr Tydfil yn cael manylion y broses eithriadol a bydd unrhyw osod dilynol yn cael ei gofnodi ar y system ganolog a'r gofrestr.

19. Adolygu penderfyniadau

19.1 Rhoddir gwybod i ymgeiswyr yn ysgrifenedig am benderfyniadau a wneir ynghylch eu ceisiadau. Rhaid cyflwyno unrhyw apêl cyn pen 21 diwrnod i'r dyddiad y derbyniwyd y penderfyniad. Bydd yr adolygiad wedyn yn cael ei gynnal gan uwch swyddog nad oedd yn ymwneud â'r penderfyniad gwreiddiol. Bydd y swyddog dan sylw yn amrywio yn dibynnu ar y penderfyniad a wneir ac yn gyffredinol bydd adolygiadau'n cael eu cwblhau o fewn 56 diwrnod i dderbyn y cais am adolygiad lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.

19.2 Rhoddir gwybod i ymgeiswyr pryd y rhagwelir y bydd adolygiadau yn fwy na'r cyfnod adolygu 56 diwrnod. Gellir ystyried adolygiadau a gyflwynir y tu allan i'r amserlen os ystyrir bod hynny'n rhesymol.

19.3 Y weithdrefn adolygu

- i. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'r adolygiad yn ysgrifenedig.
- ii. Rhaid i ymgeiswyr ofyn am adolygiad o benderfyniad cyn pen 21 diwrnod o gael eu hysbysu'n ysgrifenedig, oni bai bod amgylchiadau eithriadol na wnaethant ofyn am adolygiad o fewn yr amserlen honno. Rhaid i ymgeiswyr roi rhesymau pam eu bod yn dymuno i'r penderfyniad gael ei adolygu gan gynnwys ble maent yn credu bod penderfyniad anghywir wedi'i wneud ar y ffeithiau.
- iii. Bydd Arweinydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT yn cynnal yr adolygiad lle nad yw Arweinydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT wedi bod yn rhan o wneud y penderfyniad gwreiddiol. Lle mae arweinydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT wedi bod yn rhan o wneud y penderfyniad bydd Uwch Swyddog perthnasol arall yn cynnal yr adolygiad.
- iv. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ceisio cwblhau a rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'r penderfyniad cyn pen 21 diwrnod gwaith, ar ôl ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan yr ymgeisydd. Fel arall, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am unrhyw estyniad amser sydd ei angen i wneud y penderfyniad.

20. Adolygiad blynyddol o geisiadau

20.1 Bydd ceisiadau a dderbynnir ar gofrestr Living Merthyr Tydfil yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT a gofynnir i ymgeiswyr gadarnhau eu bod yn dymuno aros ar gofrestr Living Merthyr Tydfil. Bydd cais ymgeiswyr sy'n methu ag ymateb cyn pen 28 diwrnod yn cael ei ganslo.

20.2 Pan fydd ymgeisydd yn ail-ymgeisio i ymuno â chofrestr Living Merthyr Tydfil yn ddiweddarach bydd gofyn iddo gwblhau'r broses gais lawn a bydd yn cael ei gofrestru o'r dyddiad y mae'n ailymgeisio oni bai bod amgylchiadau lliniarol. Gallai hyn gynnwys:

- Ei fod wedi bod oddi cartref oherwydd derbyniad i ysbyty, cartref nyrsio, cartref preswyl neu ddarpariaeth debyg arall.
- Ei fod wedi bod oddi cartref i gefnogi/gofalu am aelod o'r teulu neu ffrind.
- Amgylchiadau eithriadol eraill a ystyrir yn rhesymol gan Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT.

20.3 Bydd angen darparu tystiolaeth i gefnogi cais i adfer cais sydd wedi'i ddileu a bydd gan ymgeisydd hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad yn unol â darpariaethau adran 19 y ddogfen bolisi hon.

21. Newid mewn amgylchiadau

21.1 Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gadw eu cofrestriad Living Merthyr Tydfil yn gyfredol ag unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar eu statws cais. Gall hyn gynnwys:

- Newid cyfeiriad a manylion cyswllt.
- Aelodau newydd y cartref.
- Aelodau'r cartref yn gadael y cartref.
- Newidiadau sylweddol i amgylchiadau personol, meddygol neu gymdeithasol.
- Lle mae gan ymgeisydd fand Dim Blaenoriaeth ar gyfer dyled sy'n gysylltiedig â thenantiaeth/contract sydd wedi'i glirio neu y bu i'r ymgeisydd gadw at drefniant talu y cytunwyd arno am y cyfnod y cytunwyd arno; cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw diweddarau Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT gyda'r wybodaeth.

21.2 Gellir cwblhau newidiadau mewn amgylchiadau trwy gais Living Merthyr Tydfil yr ymgeisydd trwy fewngofnodi a diweddarau'r wybodaeth neu drwy gysylltu â thîm Darganfod Atebion Tai CBSMT trwy ffonio 01685 725000 neu anfon e-bost at Housing@merthyr.gov.uk i roi gwybod am unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau.

21.3 Mae'r newidiadau yn hollbwysig wrth bennu statws pob cais unigol. Gallai methu â darparu'r wybodaeth gywir arwain at ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer y llety anghywir ac o bosibl yn methu â gwneud cais am fathau eraill o lety. Hefyd o bosibl gall arwain at bartner Landlord Cymunedol Cofrestredig yn methu â pharhau â chynnis llety am fethu â darparu'r wybodaeth ddiweddaraf.

22. Ceisiadau wedi'u canslo

22.1 Gellir dileu ceisiadau neu eu tynnu oddi ar gofrestr Living Merthyr Tydfil unrhyw bryd. Mae'r rhestr isod yn darparu nifer o senarios a allai arwain at ddileu cais:

- Mae'r ymgeisydd yn gofyn i'w gais gael ei ddileu.
- Nid yw'r ymgeisydd yn ymateb i adolygiad o fewn cyfnod amser penodol.
- Caiff yr ymgeisydd ei ailgartrefu drwy gofrestr Living Merthyr Tydfil.
- Nid yw'r ymgeisydd yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani o fewn amserlen resymol.
- Mae'r ymgeisydd wedi symud ac nid yw wedi diweddarau ei newid mewn amgylchiadau ar gyfer y cyfeiriad newydd trwy wefan Living Merthyr Tydfil neu drwy gysylltu â Thîm Darganfod Atebion Tai CBSMT.
- Mae'r ymgeisydd wedi rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu heb ddatgelu gwybodaeth berthnasol mewn cysylltiad â'i gais.
- Nid oes gan yr ymgeisydd hawl i arian cyhoeddus mwyach a/neu nid oes ganddo ganiatâd amhenodol i aros yn y DU mwyach ac felly nid oes ganddo hawl i gael tŷ na chael yr hawl i aros ar gofrestr Living Merthyr Tydfil mwyach.
- Mae'r ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd yn cael ei ganfod yn euog o ymddygiad annerbyniol ers i'w gais gael ei gofrestru a fyddai'n golygu eu bod yn methu'r prawf a amlinellir yn Adran 11 y polisi hwn.

22.2 Bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon at ymgeiswyr sy'n cael eu tynnu oddi ar gofrestr Living Merthyr Tydfil. Bydd hwn yn amlinellu'r rhesymau pam mae eu cais wedi'i ddileu. Bydd gan ymgeiswyr yr hawl i adolygu'r penderfyniad hwn fel y nodir yn adran 19 y ddogfen bolisi hon. Ni fyddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr sydd wedi cael eu hailgartrefu ond bydd eu cais yn cael ei gau oherwydd bod eu hangen am dai wedi'i fodloni drwy gynnig a derbyn llety addas. Bydd cofnodion cais yn cael eu cadw am gyfnod o 7 mlynedd ac yna'n cael eu gwaredu'n briodol.

23. Monitro ac adolygu polisi

23.1 Bydd polisi Cofrestr Tai Living Merthyr Tydfil yn cael ei fonitro gan bartneriaeth Living Merthyr Tydfil trwy'r Panel Tai Lleol bob chwarter trwy gynhyrchu adroddiad a fydd yn dadansoddi gweithrediad y gwasanaeth a'r adborth a dderbyniwyd gan ymgeiswyr o amgylch y gwasanaeth. Bydd hyn yn galluogi partneriaid i gymryd camau priodol ac amserol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd ochr yn ochr â sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu yn deg ac yn dryloyw.

23.2 Y bwriad yw adolygu'r polisi hwn bob 3 blynedd ac wrth wneud hynny bydd asesiad effaith ehangach yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, mae'n bosibl y caiff y polisi ei adolygu'n gynharach pan fydd angen newidiadau sylweddol o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol.

23.3 Efallai y bydd adegau pan fydd partner yn herio gweithrediad neu ddehongliad y polisi hwn; mewn achos o anghydfod yn codi ynghylch gweithredu neu ddehongli unrhyw ran o'r polisi hwn yn gywir, er enghraifft Landlord Cymunedol Cofrestredig yn gwrthod ystyried neu gynnig llety i ymgeisydd, y mae ei

flaenoriaeth yn golygu ei fod i gael cynnig, yna gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful neu unrhyw Landlord Cymunedol Cofrestredig arall godi 'cais i herio gweithrediad'. Bydd unrhyw heriau'n cael eu monitro i sicrhau bod y polisi'n glir ac yn cael ei weithredu'n deg a, lle y'i cydnabyddir, yn gwneud diwygiadau i'r polisi er mwyn eglurder.

Bydd 'cais i herio gweithrediad' yn cael ei ystyried a'i ddatrys yn unol â'r drefn ganlynol:

- i. Cyn pen 2 ddiwrnod i fynegi pryder, bydd Swyddog Enwebedig y Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig (e.e., Pennaeth Tai neu Uwch Swyddog Dyrannu) ac Arweinydd Tîm Darganfod Atebion Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn trafod yr achos dan sylw, gan wneud pob ymdrech resymol i ddatrys yr anghydfod yn gyfeillgar ac yn ddidwyll.
- ii. Os na ellir datrys yr anghydfod drwy'r camau uchod, caiff ei gyfeirio at uwch swyddogion yn y ddau sefydliad, a fydd yn ceisio trafod y mater cyn pen 2 ddiwrnod ers i'r anghydfod gael ei gyfeirio atynt a byddant yn gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys yr anghydfod yn brydlon ac yn gyfeillgar.

Mae'n werth cydnabod y gall fod adegau pan na ellir datrys anghydfod trwy gyfaddawd. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'r Landlord Cymunedol Cofrestredig yn cadw'r hawl i wrthsefyll ei benderfyniad. Mae gan y Cyngor hawl i wrthwynebu/anghytuno â'r penderfyniad hwnnw. Os bydd yr ymgeisydd yn herio neu'n adolygu'r penderfyniad - bydd yn ddyletswydd ar y Cyngor i roi gwybod i'r ymgeisydd o'i farn ar y mater a bydd yn cyfeirio'r ymgeisydd at y Landlord Cymunedol Cofrestredig priodol iddynt ofyn am eglurhad yn uniongyrchol.

23.4 Lle na ellir datrys anghydfod trwy gyfaddawd fel y nodir uchod, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ceisio arweiniad a chynghor gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud penderfyniadau mae Rhan 6 Deddf Tai 1996 Adran 170 yn ei gwneud yn ofynnol i Gymdeithasau Tai gydweithredu i'r fath raddau ag sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau wrth gynnig llety i bobl â blaenoriaeth o dan gynllun gosod yr awdurdod'. Cryfhawyd hyn ymhellach drwy ddyletswydd adran 95 (Dyletswydd i gydweithredu) yn Neddf Tai (Cymru) 2014, sy'n cwmpasu swyddogaethau strategol a gweithredol. Mae'r rhagdybiaeth yn awr yn gosod yn glir ar y gwasanaeth perthnasol i gydweithredu oni bai y gall ddangos y byddai'r gweithredu arfaethedig yn anghydnaws â'i ddyletswyddau. Mae Fframwaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gymdeithasau Tai sicrhau bod eu gwaith yn cefnogi'r Awdurdod Lleol i gyflawni ei rôl tai strategol.

24. Panel Tai Lleol

24.1 Prif rôl y Panel yw sicrhau gweithrediad teg, cyson a thryloyw o'r Polisi Dyraniadau Cyffredin, gan wneud penderfyniadau'n bennaf ar geisiadau cymhleth i ymuno â Chofrestr Tai Living Merthyr Tydfil; ac adolygu penderfyniadau a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful neu Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig. Gellir cyfeirio achosion at y Panel Tai Lleol i gael eu hystyried gan Swyddogion Cyngor, Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig, ymgeisydd neu gynrychiolydd penodol yr ymgeisydd (e.e, asiantaeth cymorth).

Cefnogir asesiad o geisiadau mwy cymhleth gan weithrediad Panel Tai Lleol. Mae'r Panel hwn yn cynnwys cynrychiolydd enwebedig o'r holl bartneriaid sydd â'r pŵer dirprwyedig i wneud penderfyniadau a/neu argymhellion.

24.2 Bydd gan y Panel gylch gwaith eang, sy'n cynnwys:

- Adolygu a herio penderfyniadau a wneir mewn perthynas â materion megis:
 - Bandiau yr effeithir arnynt gan gynlluniau ad-dalu rhent/dyled; lle mae caledi sylweddol a bod y gofyniad i symud yn berthnasol i les yr ymgeisydd.
 - Ymgeiswyr sydd wedi gwaethygu neu gamliwio eu hamgylchiadau yn fwriadol mewn ymgais i godi lefel y flaenoriaeth.
 - Gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll, neu atal gwybodaeth yn fwriadol.
 - Achosion sy'n gofyn am fynd drwy'r broses "camu ymlaen" o lety â chymorth neu lety dros dro neu sydd â gofyniad i gael asesiad risg DILYS cyn cael tŷ trwy gofrestr tai Living Merthyr Tydfil; neu lle mae angen rhoi ystyriaeth ehangach i'r asesiad risg oherwydd cymhlethdod yr achos neu raddfa'r risg canfyddedig.
- Monitro'r nifer a'r rheswm pam fod ymgeiswyr yn cael eu hanwybyddu, gan roi sylw dyledus i'r Cynllun Trosiannol Ailgartrefu Cyflym.
- Trafod a dadlau sut i gymhwyso unrhyw bolisi gosod lleol ac adolygu'r polisi hwnnw o bryd i'w gilydd.
- Adolygu trosglwyddiadau rheolaeth brys a dyraniadau Band 1/Blaenoriaeth Is a wnaed oherwydd angen brys am dai, sydd wedi digwydd ers y cyfarfod blaenorol.
- Unrhyw achosion cymhleth lle na fu'n bosibl dyfarnu blaenoriaeth feddygol ar sail y meini prawf a'r broses a osodwyd.
- Lle honnir bod amgylchiadau lles neu amgylchiadau eithriadol nad ydynt wedi'u cynnwys ym meini prawf y polisi.
- Lle gall fod achos sy'n gofyn am osod eiddo'n sensitif.
- Monitro perfformiad a gwybodaeth ynghylch gosod.
- Unrhyw faterion perthnasol eraill y mae angen barn gonsensws arnynt.
- Ystyried sicrhau Trosglwyddiad Rheolaeth Brys (UMT) ar gyfer eiddo a danfeddiannir a gwaethygu amgylchiadau'r ymgeiswyr.
- Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig sy'n Bartneriaid weithio gyda'i gilydd pan fo angen symud deiliad contract ac aelwyd ar frys; ni all Landlord yr eiddo ddarparu eiddo arall ar y pryd.

24.3 Gellir trafod ymgeiswyr sydd angen cymorth yn y Panel Tai Lleol a gellir datblygu cynllun gweithredu yn amlinellu'r cymorth sydd ei angen. Gall yr asiantaeth cymorth berthnasol fynychu'r cyfarfod i helpu i hwyluso trafodaeth ynghylch anghenion cymorth yr ymgeisydd. Bydd y Panel wedyn yn dod i benderfyniad yn nodi a yw'r ymgeisydd yn addas i'w ailgartrefu ac a oes angen gosod unrhyw amodau i'r contract (meysydd penodol, anghenion cymorth, ac ati).

Achosion cymhleth yn unig ddylai gael eu hystyried gan y Panel Tai Lleol. Mae mwyafrif helaeth y penderfyniadau ynghylch dyrannu'n cael eu dirprwyo i Swyddogion Darganfod Atebion Tai CBSMT yn ystod eu dyletswyddau dyddiol a swyddogion o fewn Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig. Bydd gwybodaeth gryno yn cael ei rhannu gyda'r Panel Tai Lleol i'w herio a'i hadolygu cyn, neu yn ystod pob cyfarfod, lle bo'n briodol.

24.4 Bydd Aelodau craidd y Panel yn cynnwys y canlynol:

- Arweinydd Tîm Darganfod Atebion Tai CBSMT (Cadeirydd)
- Rheolwr Gweithredol Tai CBSMT
- Swyddog (ion) Darganfod Atebion Tai CBSMT
- Rheolwr Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig gyda chyfrifoldeb am Dai (neu ddirprwy enwebedig) ar gyfer pob un o'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig partner.
- Ysgrifenyddiaeth i'w darparu gan CBSMT

Bydd y canlynol yn cael eu gwahodd i fynychu'r Panel Tai Lleol i drafod achosion perthnasol yn ôl yr angen. Gall pob asiantaeth hefyd wneud cais i fod yn bresennol beth bynnag.

- Asiantaethau cymorth a'r sector gwirfoddol
- Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol
- Heddlu De Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y GIG
- Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol
- Cynrychiolydd Tîm Grant Cymorth Tai

24.5 Bydd y Panel Tai Lleol yn cyfarfod yn fisol neu'n amlach os oes angen. Mae'r Panel yn cyfarfod yn rhithiwr, ac mae hyn yn cynnwys yr holl aelodau craidd sydd â strwythurau gweithio'n hyblyg, gyda swyddfeydd y tu allan i'r ardal leol. Cedwir cofnod o benderfyniadau'r Panel a'r rhesymau dros ddod i benderfyniad ar gais penodol. Mae cylch gwaith llawn y Panel wedi'i nodi drwy'r polisi hwn; pennir cylch gorchwyl ar gyfer y panel hefyd a chytunir arno gan bob aelod o'r panel.

24.6 Rhaid i weinyddwr y Panel (o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) dderbyn yr holl wybodaeth achos a chefnogol gan y sefydliad sy'n gwneud yr atgyfeiriad (neu unigolyn) o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfodydd a drefnwyd, er mwyn caniatáu i'r data gael ei rannu'n ddiogel â holl aelodau craidd y Panel cyn y cyfarfod. Bydd gwybodaeth yn cael ei chyfeirio gan ddefnyddio fformat safonol.

Lle na all achos aros tan y cyfarfod nesaf a drefnwyd, gellir gwneud penderfyniad drwy gylchredeg tystiolaeth yn ymwneud â'r achos i aelodau'r panel a fydd yn gwneud eu hargymhelliad dros e-bost.

24.7 Bydd yr holl benderfyniadau a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw'n cael eu cofnodi a bydd gweinyddwr y Panel (o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd dan sylw yn ysgrifenedig o'r penderfyniad cyn pen 10 DIWRNOD GWAITH.

Yna, mae gan ymgeiswyr 21 diwrnod i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

Mewn achosion eithriadol, gellir gofyn i ymgeisydd fynychu'r panel i roi eglurhad ar ei achos.

24.8 Mae pob un o'r 5 sefydliad sydd wedi ymrwymo i'r Polisi hwn wedi llofnodi protocol sy'n

llywodraethu'r ffordd y caiff gwybodaeth ei rhannu at ddiben cynnal y gofrestr tai gyffredin. Mae'r protocol rhannu gwybodaeth neu'r ISP wedi'i ddatblygu yn unol â'r fframwaith a luniwyd gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae'r protocol yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng sefydliadau yn ddiogel. Ar adegau pan fo sefydliadau eraill yn bresennol yn y Panel neu'n darparu gwybodaeth iddo, bydd angen cytundeb cyfrinachedd, os nad yw'r parti hwnnw'n llofnodwr i'r ISP sydd ar waith.

24.9 Bydd nifer yr achosion y bydd y Panel yn ymdrin â hwy, ynghyd â'r penderfyniadau a wnaed a'r rhesymau yn cael eu monitro a gellir eu hadrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Craffu a/neu Berfformiad perthnasol o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac i Fwrdd y Landlordiaid Cymunedol Cofrestredig perthnasol.

Bydd argymhellion, adroddiadau monitro a gwybodaeth leol yn cael eu hadrodd i'r Bartneriaeth Tai Strategol (a fynychir gan uwch swyddogion o ystod o bartneriaid) lle bo'n briodol.

25. Bodloni Anghenion Amrywiol

25.1 Ar gyfer Sipsiwn/Teithwyr sy'n dymuno cael llain eu hunain ar gyfer carafán; gellir cael cais ar-lein, www.merthyr.gov.uk/resident/housing/gypsytraveller/ neu gopi papur gan y Ganolfan Ddinesig. Gellir darparu cymorth i gwblhau'r cais trwy Dîm Darganfod Atebion Tai CBSMT os oes angen.

Mae dyraniadau lleiniau ar gyfer Sipsiwn/Teithwyr yn gweithredu y tu allan i'r polisi hwn ac nid yw lleiniau gwag yn cael eu hysbysebu drwy safle Living Merthyr Tydfil. Mae rhagor o wybodaeth am y polisi Dyraniadau ar gyfer lleiniau ar gael yma - [\(LMT LINK for Allocations policy\)](#). Rheolir rhestrau aros ar gyfer lleiniau y tu allan i'r polisi hwn.

Ar gyfer Sipsiwn/Teithwyr sydd am symud i lety "bricks a mortar" trwy dai cymunedol, rhaid gwneud hynny yn yr un modd ag unrhyw aelwyd arall, trwy ddilyn y camau yn y polisi hwn.

25.2 Nid yw Ceiswyr Lloches yn gymwys i gael dyraniad o lety o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996. Os byddant yn cael penderfyniad cadarnhaol ar eu cais am loches ac yn cael statws ffoadur, amddiffyniad dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn, yna efallai y bydd ganddynt hawl i gael llety wedi'i ddyrannu iddynt.

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn cymryd rhan mewn unrhyw raglenni adsefydlu ffoaduriaid (neu debyg) gellir gwneud trefniadau priodol i sicrhau llety priodol. Lle bo'r llety hwn yn dai cymunedol, mae'n debygol, drwy weithio mewn partneriaeth â'n Landlordiaid Cymunedol Partner Cofrestredig, y bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio caniatáu i Landlord Cymunedol Partner Cofrestredig wneud cynnig uniongyrchol i'r aelwyd; fel bod llety ar gael i'r aelwyd wrth gyrraedd yr ardal.

25.3 Ar gyfer unigolion sy'n gadael Gofal a phobl 16-17 oed, mae gan Awdurdodau Lleol ystod o ddyletswyddau i'r rhai sy'n gadael gofal sy'n cynrychioli grŵp arbennig o agored i niwed. Rhaid paratoli Cynlluniau Llwybr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau eu bod yn symud i lety addas pan fyddant yn gadael y system ofal. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ymrwymo i drefniadau

cynllunio ar y cyd rhwng Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni hyn. Mae hwn yn grŵp cleient allweddol ar gyfer cymorth fel y bo'r angen neu fathau eraill o gymorth tenantiaeth i alluogi contractau/tenantiaethau i gael eu cynnal.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cydnabod, o dan adran 23B Deddf Plant 1989, ei bod yn ofynnol iddynt, o dan amgylchiadau rhagnodedig, gynorthwyo i fodloni anghenion llety'r rhai sy'n gadael gofal, p'un a ydynt yn ddiartref ai peidio.

25.4 Ar gyfer Rhieni Unigol dan 18 oed bydd dyraniad o dai a chymorth priodol yn seiliedig ar ystyriaeth o anghenion tai a chymorth yr unigolyn ifanc, ei amgylchiadau unigol a'i farn a'i ddewisiadau lle bo modd, a'r brif flaenoriaeth fydd bodloni ei angen am dai. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn sicrhau bod y llety yn addas ar gyfer babanod a phlant ifanc. Bydd y Cyngor yn ystyried anghenion a chyfleoedd addysg a chyflogaeth wrth nodi llety addas, lle bynnag y bo modd.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau, lle derbynnir cais am dŷ gan riant unigol 16 neu 17 oed, bod asesiad ar y cyd yn cynnwys y gwasanaeth Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol ac unrhyw asiantaethau perthnasol eraill, o anghenion tai, gofal a chymorth yr ymgeisydd yn cael ei gynnal. Dylai'r swyddog perthnasol sydd â chyswllt cychwynnol gael caniatâd y rhiant ifanc cyn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, oni bai bod pryderon amddiffyn plant yn bresennol a gallai ceisio caniatâd beryglu lles y plentyn a/neu'r rhiant ifanc.

Rhaid cyfeirio rhieni ifanc o dan 16 oed at y Gwasanaethau Cymdeithasol bob amser fel y gellir asesu eu hanghenion gofal cymdeithasol.

25.5 O ran dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae llety yn ffactor allweddol i'w ystyried wrth sefydlu sut i fodloni anghenion unigolyn ac i ba raddau y gall fod angen i'r awdurdod lleol ddarparu gofal a chymorth, neu gymorth i ofalwyr, i fodloni anghenion a nodwyd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful felly yn benderfynol o weithredu dull integredig rhwng yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni'r dyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

26. Canmoliaeth, Sylwadau, Cwynion a'r Hawl i Adolygiad

26.1 Er mwyn i'r Cyngor wella ansawdd ein gwasanaethau, a chynorthwyo i gynllunio gwasanaethau newydd, rydym yn gwerthfawrogi adborth gan gwsmeriaid. Gellir darparu adborth o'r fath drwy'r ffurflen sylwadau ar wefan y Cyngor – www.merthyr.gov.uk

26.2 Weithiau nid yw'r Cyngor yn cael popeth yn iawn. Os dymunwch wneud cwyn gallwch wneud hynny yn y ffyrdd canlynol:

- Ar-lein ar www.merthyr.gov.uk trwy gwblhau'r ffurflen ar-lein
- E-bost: customer.care@merthyr.gov.uk
- Rhif ffôn: 01685 722146

- Ysgrifennu at: CBSMT, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Gellir dod o hyd i gopi llawn o drefn gwyno'r Cyngor ar-lein neu drwy gysylltu â'r Tîm Cwynion gan ddefnyddio un o'r dulliau uchod.

26.3 Nid yw'r uchod yn effeithio ar hawl ymgeisydd i ddwyn cwyn hefyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sef gwasanaeth annibynnol a redir gan Lywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod Awdurdodau Lleol yn darparu'r safon ofynnol o wasanaeth i gwsmeriaid. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim ac yn ddiuedd.

Bydd yr Ombwdsmon fel arfer yn delio â chwyn os bydd ymgeisydd yn teimlo ei fod wedi cael ei drin yn annheg o ganlyniad i gamweinyddu.

Er enghraifft, os yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:

- Wedi oedi rhag gweithredu heb reswm da
- Wedi ystyried ffeithiau nad ydynt yn berthnasol neu ffeithiau a anwybyddwyd sy'n berthnasol
- Heb ddilyn eu rheolau eu hunain na chydymffurfio â'r gyfraith
- Heb gymryd y camau yr oeddent wedi addo
- Wedi rhoi gwybodaeth anghywir i ymgeisydd
- Heb ddod i benderfyniad yn y modd cywir

Ni fydd yr Ombwdsmon fel arfer yn ymchwilio:

- Tan ar ôl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gael y cyfle i adolygu ei benderfyniad (fel arfer drwy fynd drwy'r broses gwyno)
- Materion sydd wedi cael, yn cael, neu y gallai gael eu trin gan y llysoedd neu'r weithdrefn adolygu mewnol
- Materion yr oedd yr ymgeisydd yn ymwybodol ohonynt fwy na deuddeg mis cyn gwneud y gŵyn
- Nod yr Ombwdsmon yw cael Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gywiro unrhyw gamweddau a allai fod wedi'u gwneud i'r achwynydd a sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn yn y dyfodol.

Gellir cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y ffyrdd canlynol:

Rhif ffôn: 0300 790 0203

Ar-lein: www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Drwy ysgrifennu at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae ,
Pencoed , CF35 5LJ

E-bost: ask@ombwdsmon.wales

26.4 Mae gan bob ymgeisydd yr hawl i ofyn am wybodaeth gyffredinol; Mae adran 166(2) Deddf 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i ymgeiswyr bod ganddynt hawl i wybodaeth gyffredinol benodol megis:

- i. Gwybodaeth a fydd yn galluogi'r ymgeisydd i asesu sut yr ymdrinnir â'i gais o dan y cynllun, ac, yn benodol, a yw'n debygol o ddod o fewn y categorïau ffafriaeth resymol; a
- ii. Gwybodaeth ynghylch a yw llety sy'n briodol i'w hanghenion yn debygol o fod ar gael ac, os felly, pa mor hir y mae'n debygol o fod cyn y bydd llety o'r fath ar gael.

